**Rebecca Evans AC/AM**

**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA VG 0364 20

Elin Jones AM
Y Llywydd

4 Chwefror 2020

Annwyl Llywydd

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y Prif Reoliadau"). Mae'r Prif Reoliadau yn nodi'r fframwaith ar gyfer codi tâl ar unigolion nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y DU am driniaeth frys neu driniaeth nad oes ei hangen ar unwaith a ddarperir mewn ysbyty yng Nghymru.

O dan y rheoliadau presennol, byddai'n rhaid codi tâl ar unrhyw ymwelydd tramor nad yw'n gymwys i gael gofal wedi'i ariannu gan y GIG petai'n dod i un o ysbytai'r GIG yn dangos symptomau Coronafeirws newydd Wuhan (2019-nCoV). Byddai hynny'n cynnwys ffi am unrhyw wasanaeth a roddir iddo gan y GIG i roi diagnosis o'r clefyd hwn ac i'w drin. Mae ymwelwyr tramor o'r fath yn cynnwys unigolion nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y DU, sydd heb dalu'r gordal iechyd mewnfudo neu nad ydynt wedi'u heithrio rhag talu am unrhyw reswm arall.

. Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae diwygio’r Prif Reoliadau i gynnwys Coronafeirws newydd Wuhan (2019-nCoV) yn Atodlen 1 i’r Prif Reoliadau, yn eithrio Byrddau Iechyd Lleol rhag codi tâl am wasanaethau i roi diagnosis o’r clefyd hwn a’i drin. Mae hefyd yn lleihau’r risg na fydd pobl yn ceisio triniaeth ac felly’n rhoi amddiffyniad mwy eang ac yn lleihau’r risg i iechyd y cyhoedd.

Cafodd Rheoliadau 2020 eu gwneud a’u gosod cyn gynted ag yr oedd hynny’n bosibl ar sail iechyd y cyhoedd er mwyn dileu’r rhwystr ariannol i ymwelwyr tramor wrth iddynt geisio triniaeth ar gyfer y clefyd hwn gan y GIG ac wrth iddynt barhau â’r driniaeth honno. Byddant hefyd yn sicrhau bod y Byrddau Iechyd Lleol yn barod os bydd unrhyw achosion yn codi. O ganlyniad, maent wedi dod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gwneud.

Mae torri’r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i’r Rheoliadau ddod i rym erbyn 4 Chwefror 2020. Oherwydd amgylchiadau’r clefyd hwn, credir bod modd cyfiawnhau lleihau’r cyfnod yn yr achos hwn, a bod hynny’n angenrheidiol.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a’i osod, ynghyd â’r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd copi o’r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.